Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 99/2025

Dyddiad cyhoeddi: 15/10/2025

# Adroddiad ar Gynnig Gofal Plant Cymru rhwng Medi 2023 ac Awst 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-542-8

**Adroddiad ar Gynnig Gofal Plant Cymru rhwng Medi 2023 ac Awst 2024**

Awduron: Bethan Gilson a Dr Jack Watkins

Addrodiad Ymchwil Llawn: Gilson, B & Watkins, J. (2025). Adroddiad ar Gynnig Gofal Plant Cymru rhwng Medi 2023 ac Awst 2024. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 99/2025

Available at: https://www.llyw.cymru/adroddiad-y-cynnig-gofal-plant-dros-gymru-medi-2023-ac-awst-2024

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid, o reidrwydd, rai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Dr Jack Watkins

Adran: Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn:

E-bost: ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Adroddiad ar Gynnig Gofal Plant Cymru rhwng Medi 2023 ac Awst 2024 ................. 1
Geirfa ........................................................................................................ 6
1. Cyflwyniad ................................................................................................ 8
Ffynonellau data ........................................................................................ 10
2. Manteisio ar y Cynnig ................................................................................ 16
Mesur y sawl sy’n manteisio ........................................................................ 16
Iaith ........................................................................................................... 19
Rhieni mewn Addysg a Hyfforddiant ............................................................. 20
Enillion rhieni ............................................................................................. 21
3. Defnyddio’r Cynnig .................................................................................... 24
Ymwybyddiaeth .......................................................................................... 24
Y broses ymgeisio ....................................................................................... 27
Canllawiau a gwybodaeth i rieni ................................................................... 30
Gweinyddu darparwyr ................................................................................. 31
4. Effaith y Cynnig ar deuluoedd .................................................................... 34
Newidiadau yn y defnydd o ofal plant ........................................................... 34
Cyflogaeth ac addysg .................................................................................. 39
Arbed costau, gallu i weithio, a lles teuluol ................................................... 45
5. Effeithiau ar ddarparwyr ............................................................................. 52
Proffil y darparwyr ....................................................................................... 52
Incwm a chynaliadwyedd ............................................................................. 54
6. Costau ychwanegol .................................................................................... 58

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Ym mha ardal awdurdod lleol ydych chi'n byw?" ..... 12
Tabl 2: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "Ym mha awdurdod lleol y mae eich lleoliad?" ..... 14
Tabl 3: Nifer y plant sy'n manteisio ar Gynnig Gofal Plant Cymru yn ôl awdurdod lleol, 2023–24 ..... 17
Tabl 4. Amcangyfrif o gyfradd fanteisio Cynnig Gofal Plant Cymru, 2023–24 ..... 18
Tabl 5: Nifer a chyfran yr hawliadau yn ôl iaith y gwasanaeth, 2023–24 ..... 20
Tabl 6: Enillion rhieni fel yr adroddwyd mewn ymatebion i arolwg y rhieni ac mewn gwybodaeth a gasglwyd drwy geisiadau rhieni, 2023–24 ..... 23
Tabl 7: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Sut y clywsoch chi gyntaf am Gynnig Gofal Plant Cymru?" 2023–24 ..... 25
Tabl 8: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw rai o'ch cwsmeriaid / rhieni sy'n gymwys i gael y Cynnig ond sydd wedi penderfynu peidio â'i dderbyn? " ..... 26
Tabl 9: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "A gawsoch unrhyw un o'r anawsterau canlynol wrth wneud cais am y Cynnig Gofal Plant? Ticiwch bob un sy'n berthnasol" ..... 28
Tabl 10: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Mae canllawiau ar gael ar-lein i rieni sy'n defnyddio Cynnig Gofal Plant Cymru. Pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau hyn yn eich barn chi?" ..... 30
Tabl 11: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Pa mor ddefnyddiol oedd y cyngor a gawsoch drwy'r llinell gymorth genedlaethol?" ..... 31
Tabl 12: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "Tua faint o amser ydych chi (neu'ch staff) yn ei dreulio bob mis ar y tasgau gweinyddol canlynol sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Gofal Plant?" Cofrestru fel darparwr i ddarparu'r Cynnig 32
Tabl 13: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "Tua faint o amser ydych chi (neu'ch staff) yn ei dreulio bob mis ar y tasgau gweinyddol canlynol sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Gofal Plant?" Cyflwyno hawliadau am daliad ..... 33
Tabl 14: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "Tua faint o amser ydych chi (neu'ch staff) yn ei dreulio bob mis ar y tasgau gweinyddol canlynol sy'n

gysylltiedig â'r Cynnig Gofal Plant?" Prosesu ceisiadau gan rieni am oriau a ariennir.......... 33
Tabl 15. Ymatebion arolwg rhieni i'r cwestiwn: "Cyn ichi ddechrau manteisio ar y Cynnig Gofal Plant, a oeddech chi'n defnyddio unrhyw ofal plant ffurfiol (fel gofal plant mewn meithrinfeydd, grŵp chwarae neu warchodwyr plant)?".......... 34
Tabl 16. Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Pe na bai'r Cynnig Gofal Plant yn bodoli byddai fy mhlentyn wedi".......... 36
Tabl 17: Ymatebion arolwg rhieni i'r cwestiwn: "Rhyw chwe mis cyn ichi ddefnyddio'r Cynnig Gofal Plant, tua faint o oriau o ofal plant ffurfiol a oeddech chi'n eu defnyddio mewn wythnos arferol?" 2021–22, 2023–24 .......... 37
Tabl 18: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Rhyw chwe mis cyn ichi ddefnyddio'r Cynnig Gofal Plant, tua faint o oriau o ofal plant anffurfiol (teulu, ffrindiau, teulu estynedig – heb eich cynnwys chi eich hun nac aelodau eraill eich cartref) oeddech chi'n eu defnyddio?", 2021–22, 2023–24.......... 38
Tabl 19: Oriau cyfunol o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol a ddefnyddiwyd cyn manteisio ar y Cynnig, fel yr adroddwyd gan ymatebwyr arolwg y rhieni, 2023–24 .......... 39
Tabl 20: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:" .......... 40
Tabl 21: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Pe na bai'r Cynnig Gofal Plant wedi bod ar gael i chi, beth fyddech chi'n meddwl fyddai eich sefyllfa o ran cyflogaeth? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)" .......... 41
Tabl 22: Ymatebion arolwg y rhieni i gwestiynau ar effaith y Cynnig ar eu cyflogaeth .......... 42
Tabl 23: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:" [Wedi'i dargedu at rieni mewn addysg] .......... 44
Tabl 24: Ymatebion arolwg rhieni i'r cwestiwn: "Pe na bai'r Cynnig Gofal Plant wedi bod ar gael i chi, beth ydych chi'n meddwl fyddai eich sefyllfa bresennol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)" .......... 45
Tabl 25: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:" Mae cael mynediad at ofal plant wedi'i ariannu wedi cael effaith gadarnhaol ar fy lles fy hun a/neu fy mhartner. 46

Tabl 26: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:" Mae manteisio ar y Cynnig Gofal Plant wedi lleihau baich ariannol gofal plant. ........ 47
Tabl 27: Ymatebion arolwg rhieni i'r cwestiwn: "Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae gofal plant wedi'i ariannu drwy'r Cynnig wedi'i wneud i gyllid eich teulu o ran faint o arian sydd ar gael i chi bob mis?" ........ 48
Tabl 28: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:" Mae manteisio ar y Cynnig Gofal Plant wedi'i gwneud yn haws i mi ymgymryd â fy ngwaith nag a fyddai wedi bod fel arall. ........ 50
Tabl 29: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "A ydych chi'n credu bod unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol wedi bod o ganlyniad i'ch plentyn yn manteisio ar ofal plant ffurfiol?" ........ 51
Tabl 30: Darparwyr sy'n darparu'r Cynnig yn ôl awdurdod lleol, 2023–24 ........ 53
Tabl 31: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "A yw'r taliadau a gewch am ddarparu'r lleoedd o dan y Cynnig Gofal Plant yn cael eu talu i chi mewn modd amserol a chywir?" ........ 55
Tabl 32: Ymatebion arolwg darparwyr i'r cwestiwn: "A yw'r Cynnig Gofal Plant wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar broffidioldeb eich busnes?" ........ 56
Tabl 33: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "A yw'r Cynnig Gofal Plant wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gynaliadwyedd eich busnes?" ........ 56
Tabl 34. Ymatebion darparwyr i'r cwestiwn: "A ydych chi'n cynnwys costau ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)", 2021–22 – 2023–24 ........ 59
Tabl 35: Ymatebion arolwg rhieni i'r cwestiwn: "A wnaethoch chi dalu am unrhyw rai o'r costau ychwanegol canlynol gydag unrhyw un o'r darparwyr gofal plant a fynychodd eich plentyn gan ddefnyddio cyllid y Cynnig Gofal Plant? Dylech gynnwys costau rheolaidd am ginio, byrbrydau neu drafnidiaeth, ond peidiwch â chynnwys unrhyw ffioedd am unrhyw oriau ychwanegol a ddefnyddiwch." 2021–22 i 2023–24 ........ 60
Tabl 36. Ymatebion darparwyr i'r cwestiwn: "A ydych chi'n cynnwys costau ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)", 2023–24, yn ôl nodweddion gwasanaeth ........ 61

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Plot amlder enillion blynyddol gros rhieni a fanteisiodd ar Gynnig Gofal Plant Cymru, 2023–24 ........ 22

## Geirfa

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Mae'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), a fu ar waith ers tua 25 mlynedd, wedi'i ddisodli gan y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a sefydlwyd gan Ddeddf 2018. Mae'r diffiniad ar gyfer ADY, yn y bôn, yr un fath â'r diffiniad a ddefnyddid yn flaenorol ar gyfer AAA. Hynny yw:

- mae'r dysgwr yn cael llawer mwy o anhawster dysgu na'r mwyafrif o bobl eraill o'r un oedran (na ellir mynd i'r afael â hynny trwy addysgu gwahaniaethol yn unig); neu
- mae gan y dysgwr anabledd (at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010) sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag cael mynediad at addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran; ac
- mae'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (ALP).

**Grant Cymorth Ychwanegol**

Grant sydd ar gael i alluogi awdurdodau lleol i sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig Gofal Plant yn gynhwysol i blant cymwys ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau corfforol (ADY). Gweler y nodyn uchod.

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

AGC yw'r rheoleiddiwr annibynnol o ofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae AGC yn cofrestru, arolygu a chymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.

**Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS)**

Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws ar gyfer plant cyn-ysgol gweithwyr critigol a phlant agored i niwed o Ebrill i Awst 2020.

**Cynnig Gofal Plant(y Cynnig)**

Hyd at 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer rhieni cymwys plant 3 a 4 oed, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn.

**Dechrau'n Deg**

Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru i blant (0–3 oed) a'u teuluoedd. Mae rhan o'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn cynnwys 12.5 awr o ofal plant a ariennir yr wythnos, am 39 wythnos, i gefnogi datblygiad y plant 2 a 3 oed sy'n gymwys i gael cymorth.

**Gwasanaeth digidol cenedlaethol**

Mae gwaith ar y gweill i gynllunio a dylunio gwasanaeth gweinyddol canolog – mae hwn yn cael ei ddylunio a'i ddatblygu i wneud gweinyddu ceisiadau rhieni a threfniadau ar gyfer gwneud taliadau i ddarparwyr yn fwy effeithlon, ac i ddarparu profiad mwy cyson i rieni a darparwyr ledled Cymru.

**Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**

Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. Disodlwyd y term "Anghenion Addysgol Arbennig" (AAA) yng Nghymru gan y term "Anghenion Dysgu Ychwanegol" (ADY), er bod y newid hwn wedi digwydd yn ystod y cyfnod sy'n berthnasol i'r ymchwil hon. Gweler ADY uchod.

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cynnig Gofal Plant Cymru ("y Cynnig") yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu hyd at 30 awr o addysg feithrin a gofal plant cyfunol yr wythnos, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn, i blant 3 oed a 4 oed rhieni cymwys.

1.2. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg feithrin i blant 3 a 4 oed. Gellir darparu hyn naill ai drwy leoliad a gynhelir gan awdurdod lleol (ysgol fel arfer) neu drwy ddarparwr addysg gynnar nas cynhelir (meithrinfa breifat fel arfer, a ariennir gan yr awdurdod lleol). Mae'r Cynnig yn ariannu oriau ychwanegol o ofal plant i sicrhau bod rhieni cymwys ym mhob ardal yn gallu manteisio ar gyfanswm o 30 awr.

1.3. Darperir gofal plant a ariennir gan wasanaethau gofal plant. Er mwyn darparu oriau gofal plant a ariennir drwy'r Cynnig, rhaid i ddarparwr gofal plant fod wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae gwasanaethau'n cynnwys naill ai gwarchodwyr plant, sy'n darparu gofal yn eu cartref eu hunain, neu ddarparwyr gofal dydd plant, sy'n darparu gofal mewn canolfannau neu gyfleusterau eraill.

1.4. Mae rhieni'n gwneud ceisiadau i gael mynediad at y Cynnig drwy wasanaeth ar-lein a gynhelir ar wefan Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r cais hwn, rhaid i rieni ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra. I fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig, rhaid i bob rhiant:

- Fod yn byw yng Nghymru;
- Bod â phlentyn 3 neu 4 oed;
- Bod ag incwm gros o £100,000 neu lai y flwyddyn.

Rhaid i bob rhiant hefyd fod:

- Yn gyflogedig ac yn ennill o leiaf, ar gyfartaledd, yr hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu Gyflog Byw;
- Ar dâl ac absenoldeb statudol (absenoldeb salwch, mamolaeth, tadolaeth, rhiant, profedigaeth neu fabwysiadu); o
- wedi cofrestru ar gwrs addysg bellach neu uwch sydd o leiaf 10 wythnos o hyd.

1.5. Lansiwyd y Cynnig mewn saith ardal beilot yn 2017. Ehangwyd y ddarpariaeth i gwmpasu mwy o ardaloedd ym mis Medi 2018. At ddibenion adrodd, ystyrir bod y Cynnig yn rhedeg ochr yn ochr â'r flwyddyn ysgol, gan ddechrau ym mis Medi cyn dod i ben ym mis Awst. Gall plant ddechrau manteisio ar ofal plant a ariennir yn y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd, a daw i ben ym mis Medi y flwyddyn ysgol lle byddant yn troi'n bump oed.

1.6. Mae'r Cynnig wedi bod yn destun ymchwil gymdeithasol a dadansoddiad gan y Llywodraeth. Mae hyn wedi cynnwys gwerthusiadau cyhoeddedig o bum mlynedd gyntaf y rhaglen, gan gynnwys y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS) (dros dro), a weithredodd yn lle'r Cynnig yn ystod 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19.

1.7. Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â chyflawni'r Cynnig yn y flwyddyn academaidd 2023–24. Lle bo'n bosibl, cyflwynwyd data sy'n ymwneud â'r flwyddyn hon ochr yn ochr â data cymharol o flynyddoedd blaenorol.

## Ffynonellau data

1.8. Cafodd yr adroddiad hwn ei lywio gan y ffynonellau data canlynol:

- Monitro gwybodaeth a gesglir gan Lywodraeth Cymru gan rieni a darparwyr; ac
- Arolygon rhieni a darparwyr a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf a mis Awst 2023 a 2024.

1.9. Rhwng 2018 a 2022, casglwyd gwybodaeth fonitro am y defnydd o'r Cynnig gan awdurdodau lleol dethol. Cyflwynwyd adroddiadau misol a thymhorol i Lywodraeth Cymru, a defnyddiwyd y rhain i nodi nifer y plant sy'n manteisio ar oriau a ariennir gan y rhaglen. Ers 2022, mae data monitro wedi cael eu casglu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

1.10. Arolygwyd rhieni a darparwyr fel rhan o'r gwerthusiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol o'r Cynnig. Ers 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i weinyddu'r arolygon hyn yn flynyddol ym mis Gorffennaf a mis Awst bob blwyddyn.

1.11. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data o arolygon rhieni a gasglwyd yn 2021–22 (n=2,002), 2022–23 (n=752) a 2023–24 (n=1,606), ac o arolygon darparwyr a gasglwyd yn yr un blynyddoedd (n=330, n=333 a n=244 yn y drefn honno). Yn ystod 2021–22, cynhaliwyd arolygon gan gontractwr fel rhan o'r gwerthusiad o bumed flwyddyn y Cynnig (Ymchwil Arad, 2022). Yn ystod 2022–23, gwahoddwyd rhieni a darparwyr i gyfrannu trwy hysbysiad a anfonwyd trwy wefan gov.uk, ac roedd yn ymddangos bod hyn wedi arwain at lai o ymateb gan rieni. Yn y flwyddyn ganlynol, anfonwyd negeseuon e-bost yn uniongyrchol at rieni, ac arweiniodd hyn at gyfradd ymateb uwch o'i chymharu â 2022–23.

1.12. Roedd y sampl ar gyfer arolwg y rhieni yn ystod 2023–24 yn gynrychioliadol, yn fras, o ddosbarthiad y rhieni sy'n defnyddio'r rhaglen ledled ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Wrth gymharu ymatebion yr arolwg â chofnodion monitro, ym mhob un ond dau achos, roedd cyfran yr ymatebwyr ym mhob

awdurdod lleol o fewn un pwynt canran i'r gyfran o rieni a gofnodwyd mewn gwaith monitro ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae Tabl 1 isod yn cyflwyno dadansoddiad yr ymatebwyr yn yr arolwg ac o gofnodion monitro.

**Tabl 1: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Ym mha ardal awdurdod lleol ydych chi'n byw?"**

| Ymatebion | Arolwg 2023–24 | | Cofnod monitro | |
|---|---|---|---|---|
| | Canran yr Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion | Canran yr Ymatebion | Gwahaniaeth |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 2.0% | 31 | 1.9% | 0.1% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 3.1% | 49 | 3.1% | 0.0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 6.7% | 106 | 5.5% | 1.1% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 10.9% | 172 | 11.1% | -0.2% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 4.4% | 69 | 5.6% | -1.2% |
| Dinas a Sir Abertawe | 2.0% | 31 | 2.3% | -0.3% |
| Cyngor Dinas Caerdydd | 4.2% | 66 | 4.0% | 0.1% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5.0% | 79 | 4.0% | 1.0% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6.3% | 100 | 6.5% | -0.2% |
| Cyngor Sir y Fflint | 5.3% | 84 | 4.7% | 0.6% |
| Cyngor Gwynedd | 3.1% | 49 | 2.5% | 0.6% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1.3% | 21 | 1.0% | 0.4% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 3.1% | 49 | 3.8% | -0.7% |
| Cyngor Sir Fynwy | 4.7% | 74 | 4.4% | 0.3% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 4.2% | 67 | 5.5% | -1.3% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 2.6% | 41 | 3.4% | -0.8% |
| Cyngor Sir Penfro | 5.9% | 94 | 5.1% | 0.8% |
| Cyngor Sir Powys | 5.7% | 91 | 5.9% | -0.1% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 6.6% | 105 | 6.1% | 0.6% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 4.2% | 67 | 5.0% | -0.8% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 4.0% | 63 | 3.4% | 0.6% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 4.8% | 76 | 5.4% | -0.6% |

Ffynhonnell: Arolwg Rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru; Data monitro Cynnig Gofal Plant Cymru, 2023–24

1.13. Roedd y sampl o ddarparwyr a gwblhaodd yr arolygon yn llai cynrychioliadol o ran dosbarthiad ledled ardaloedd awdurdodau lleol Cymru nag oedd y sampl o rieni. Mae Tabl 2 isod yn dangos bod tri awdurdod lleol wedi'u tangynrychioli (Torfaen, Caerdydd, a Wrecsam) tra bod tri wedi'u gorgynrychioli (Gwynedd, Ynys Môn, a Chonwy).

**Tabl 2: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "Ym mha awdurdod lleol y mae eich lleoliad?"**

| Ymatebion | Arolwg 2023–24 | | Monitro | |
|---|---|---|---|---|
| | Canran yr Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion | Canran yr Ymatebion | Gwahaniaeth |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 2.2% | 5 | 1.4% | 0.9% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 1.8% | * | 2.4% | -0.6% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 5.8% | 13 | 5.6% | 0.2% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 6.7% | 15 | 10.1% | -3.4% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 6.3% | 14 | 4.9% | 1.3% |
| Dinas a Sir Abertawe | 3.1% | 7 | 2.9% | 0.2% |
| Cyngor Dinas Caerdydd | 6.7% | 15 | 4.6% | 2.1% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 3.6% | 8 | 4.2% | -0.6% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6.7% | 15 | 7.4% | -0.7% |
| Cyngor Sir y Fflint | 9.8% | 22 | 6.0% | 3.8% |
| Cyngor Gwynedd | 6.3% | 14 | 2.9% | 3.3% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 0.9% | * | 1.1% | -0.2% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 3.6% | 8 | 3.5% | 0.1% |
| Cyngor Sir Fynwy | 3.6% | 8 | 4.0% | -0.4% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 3.1% | 7 | 3.9% | -0.8% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 4.5% | 10 | 4.0% | 0.5% |
| Cyngor Sir Penfro | 4.9% | 11 | 6.8% | -1.9% |
| Cyngor Sir Powys | 6.7% | 15 | 5.3% | 1.4% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 5.8% | 13 | 4.9% | 0.9% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 4.0% | 9 | 2.6% | 1.4% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 0.9% | * | 6.0% | -5.1% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 3.1% | 7 | 5.5% | -2.4% |

Ffynhonnell: Arolwg Darparwyr Cynnig Gofal Plant Cymru, 2023–24.

* - Mae'r niferoedd o dan bump wedi'u dileu

1.14. O ganlyniad, dylid trin canfyddiadau arolwg y darparwyr fel rhai ychydig yn llai cynrychioliadol o'r holl wasanaethau sy'n darparu'r Cynnig.

# 2. Manteisio ar y Cynnig

## Mesur y sawl sy'n manteisio

2.1. Rhwng Medi 2023 ac Awst 2024, defnyddiodd cyfanswm o 21,283 o blant oriau o ofal plant a ariennir drwy'r Cynnig. Mae Tabl 3 isod yn dangos dosbarthiad y plant hyn ledled ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Tabl 3: Nifer y plant sy’n manteisio ar Gynnig Gofal Plant Cymru yn ôl awdurdod lleol, 2023–24**

| Awdurdod Lleol | Cyfanswm y plant sy’n manteisio ar y Cynnig, 2023–24 |
|---|---:|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 394 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 660 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 1,181 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 1,184 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 484 |
| Dinas a Sir Abertawe | 1,298 |
| Cyngor Dinas Caerdydd | 2,371 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 857 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 847 |
| Cyngor Sir y Fflint | 1,375 |
| Cyngor Gwynedd | 1,006 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 534 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 209 |
| Cyngor Sir Fynwy | 803 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 940 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 1,162 |
| Cyngor Sir Penfro | 729 |
| Cyngor Sir Powys | 1,089 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 1,236 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 718 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 1,063 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 1,143 |
| Cyfanswm | 21,283 |

Ffynhonnell: Data monitro Cynnig Gofal Plant Cymru, 2023–24

2.2. Dylanwadir ar nifer y plant sy'n defnyddio'r Cynnig ym mhob blwyddyn gan amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys nifer y plant 3 a 4 oed sy'n byw yng Nghymru a statws cymhwystra teuluoedd. Er mwyn ystyried cyrhaeddiad y Cynnig, rydym yn amcangyfrif 'cyfradd fanteisio'. Amcangyfrifir hyn gan ddefnyddio amcangyfrif wedi'i fodelu o'r boblogaeth gymwys. Gellir defnyddio'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan y SYG i amcangyfrif nifer y teuluoedd yng Nghymru sydd â phlant tair neu bedair oed, sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y rhaglen. Mae amcangyfrifon o'r boblogaeth gymwys o dan wahanol senarios cymhwystra ar gael fel datganiad ystadegol ad hoc.

2.3. Mae Tabl 4 isod yn dangos cyfradd fanteisio amcangyfrifedig y Cynnig yn 2023–24. Yn seiliedig ar y meini prawf cymhwystra cyfredol, amcangyfrifwn fod 58% o blant cymwys wedi manteisio ar y Cynnig yn 2023–24.

**Tabl 4. Amcangyfrif o gyfradd fanteisio Cynnig Gofal Plant Cymru, 2023–24**

| Newidyn | Gwerth |
|---|---|
| Gofal plant a ariennir gan y Cynnig Plant eleni | 21,283 |
| Amcangyfrif o'r boblogaeth gymwys ar gyfer eleni | 36,600 |
| Amcangyfrif o'r gyfradd fanteisio | 58% |

Ffynonellau: Data monitro Cynnig Gofal Plant Cymru, dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan y SYG 2023

2.4. Yn arolwg 2023–24, rhoddodd 56 o ddarparwyr resymau pam na wnaeth rhieni fanteisio ar y Cynnig. Mae'r ymatebion hyn yn debygol o ymwneud â phrofiadau rhieni a oedd eisoes yn defnyddio gofal plant ffurfiol â thâl yn y gwasanaeth hwnnw. Yr ymateb mwyaf cyffredin (25) oedd bod y rhieni hyn yn gweld y broses ymgeisio a'r gofynion i gyflwyno gwybodaeth yn rhy gymhleth ac yn cymryd llawer o amser, gyda rhai'n sôn bod rhieni yn ei chael hi'n ymwthiol mewn perthynas â'u cyllid personol. Soniodd rhai ymatebion (8) fod hyn yn fater penodol i rieni a oedd yn hunangyflogedig. Soniodd rhai darparwyr (12) am ffafriaeth rhieni am gydbwysedd gwahanol o gymorth y Llywodraeth, trwy ofal plant y Credyd Cynhwysol a chredydau treth eraill, y credent y byddent yn eu colli pe byddent naill ai'n derbyn y Cynnig neu'n dod yn gymwys i fanteisio ar y

Cynnig (h.y. trwy gael eu cyflogi am y swm angenrheidiol o oriau). Darperir enghreifftiau o sylwadau ysgrifenedig o'r ymatebion isod:

> "Roedd y broses gofrestru yn rhy gymhleth i'w sefyllfa."
>
> "Mae rhai [rhieni] yn hunangyflogedig a does ganddyn nhw ddim cyfrifon yn barod."
>
> "Gan ei fod yn effeithio ar eu budd-daliadau / credyd cynhwysol, bydd [rhieni] yn waeth ar ôl i'r cytundeb ddod i ben ac yn ystod y 4 wythnos o'r flwyddyn nad yw'r cyllid yn eu cwmpasu."

## Iaith

2.5. Mae plant sy'n defnyddio elfen gofal plant y Cynnig yn mynychu gwasanaethau gofal plant cofrestredig. Mae'r gwasanaethau hyn yn adrodd i Arolygiaeth Gofal Cymru eu prif iaith weithredu, boed yn Saesneg, Cymraeg neu ddwyieithog. Mewn rhai achosion, bydd un plentyn yn mynychu gwasanaethau lluosog fel rhan o'r Cynnig, gan rannu eu horiau rhwng y rhain. Yn yr ystyr hwn, nid yw'n bosibl dweud y bydd un plentyn bob amser yn manteisio ar y rhaglen yn gyfan gwbl mewn un iaith. Er mwyn asesu'r defnydd o iaith, rydym felly yn ystyried cyfran yr hawliadau a dderbyniwyd gan wasanaethau gyda phob prif iaith weithredu wahanol. Gwneir hawliadau gan ddarparwyr gofal plant i Lywodraeth Cymru i'w talu. Defnyddir yr hawliadau hyn i gofnodi'r defnydd o'r rhaglen. Mae Tabl 5 isod yn dangos cyfran yr hawliadau ym mhob ardal awdurdod lleol sy'n mynychu gofal plant a ariennir mewn gwasanaethau yn ôl y brif iaith weithredu.

**Tabl 5: Nifer a chyfran yr hawliadau yn ôl iaith y gwasanaeth, 2023–24**

| Math o hawliadau | Nifer yr hawliadau | Cyfran yr holl hawliadau |
|---|---|---|
| Hawliadau am ddarpariaeth yn y ddwy iaith | 71,630 | 10.2% |
| Hawliadau am ddarpariaeth yn Saesneg | 499,845 | 70.9% |
| Hawliadau am ddarpariaeth mewn Iaith Anhysbys | 9,243 | 1.3% |
| Hawliadau am ddarpariaeth yn Gymraeg | 123,882 | 17.6% |
| Cyfanswm yr hawliadau | 704,600 | 100% |

Ffynhonnell: Data monitro Cynnig Gofal Plant i Gymru

2.6. Mae'r tabl yn dangos bod tua 28% o hawliadau naill ai mewn gwasanaethau sy'n defnyddio'r Gymraeg (17.6%) neu'r ddwy iaith (10.2%).

## Rhieni mewn Addysg a Hyfforddiant

2.7. Yn 2022–23, ymestynnwyd y cymhwystra ar gyfer y Cynnig i rieni mewn hyfforddiant ac addysg lawnamser. O'r 21,283 o blant a ddefnyddiodd y Cynnig yn 2023–24, roedd 963 (4.5%) o aelwydydd lle roedd o leiaf un rhiant mewn addysg neu hyfforddiant.

2.8. Mae gwaith modelu gan ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan y SYG wedi amcangyfrif bod tua 1,500 o blant yn 2023–24 yn gymwys ar gyfer y Cynnig oherwydd bod ganddynt riant mewn addysg neu hyfforddiant. Mae hyn oddeutu 4.10% o gyfanswm y boblogaeth gymwys o 36,600 o blant. Mae data monitro, felly, yn awgrymu bod cyfran y plant sy'n cael eu cefnogi drwy'r rhaglen sydd â rhiant mewn addysg yn debyg i gyfran y boblogaeth gymwys a fodelwyd.


## Enillion rhieni

2.9. Er mwyn profi eu cymhwystra ar gyfer y Cynnig, mae'n ofynnol i rieni gyflwyno gwybodaeth am eu henillion gros fel rhan o'u cais. Mae rhieni hefyd yn cael eu hannog i ddiweddaru'r wybodaeth hon i adlewyrchu unrhyw newidiadau a sicrhau cymhwystra parhaus trwy gydol yr amser y maent yn defnyddio'r Cynnig.

2.10. Yn seiliedig ar geisiadau a gyflwynwyd gan rieni a ddefnyddiodd y Cynnig yn 2023–24, yr enillion blynyddol gros canolrifol oedd **£30,800**. Er cyd-destun, yr enillion blynyddol gros canolrifol ar gyfer oedolion llawnamser sy'n gweithio yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2024 oedd **£34,303** (fodd bynnag, dylid nodi na fydd pob rhiant sy'n manteisio ar y Cynnig yn cael ei ystyried fel rhywun sy'n gweithio'n llawnamser).

2.11. Mae Ffigur 1 isod yn dangos plot amlder o enillion blynyddol gros ar gyfer rhieni a fanteisiodd ar y Cynnig yn 2023–24, gyda chroestoriadau fertigol yn dangos yr enillion canolrifol ar gyfer Cymru ac ar gyfer rhieni a fanteisiodd ar y Cynnig. Mae'r llinell ddotiog yn dangos enillion blynyddol gros canolrifol rhieni a fanteisiodd ar y Cynnig (£30,800). Mae'r llinell doredig yn dangos enillion blynyddol gros canolrifol oedolion llawnamser sy'n gweithio yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2024 (£34,303). Mae'r ffigur yn dangos bod canolrif y Cynnig yn is na chanolrif Cymru, er na fydd pob rhiant a gynhwysir yn y Cynnig yn gyfwerth â llawnamser.

**Ffigur 1: Plot amlder enillion blynyddol gros rhieni a fanteisiodd ar Gynnig Gofal Plant Cymru, 2023–24**




Ffynhonnell: Data monitro Cynnig Gofal Plant Cymru, 2023–24

2.12. Mae Tabl 6 isod yn cyflwyno crynodeb o enillion y rhiant a gwblhaodd arolwg 2023 a'u partner, wedi'u rhannu'n gategorïau, ynghyd â chrynodeb o enillion yr holl rieni sy'n defnyddio'r Cynnig fel y'u cymerwyd o geisiadau rhieni. Mae'r tabl yn dangos bod arolwg y rhieni wedi gorsamplu'r enillwyr uchaf ac yn tansamplu'r braced enillion ail uchaf ac yn y braced £20,800 – £25,999. Glanhawyd data i dynnu cofnodion o'r arolwg a'r gwaith monitro sy'n dangos bod rhiant wedi ennill mwy na £100,000. Gan y byddai hyn yn gwneud rhieni yn anghymwys, tybir bod y rhain yn wallau mewnbynnu data.

**Tabl 6: Enillion rhieni fel yr adroddwyd mewn ymatebion i arolwg y rhieni ac mewn gwybodaeth a gasglwyd drwy geisiadau rhieni, 2023–24**

| Ymatebion | Arolwg Rhieni | | Monitro Ceisiadau 2023–24 | | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| | Canran yr Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion | Canran yr Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion | |
| Hyd at £5,199 | 0.7% | 19 | 1.2% | 307 | -0.5% |
| £5,200 i £10,399 | 3.2% | 87 | 4.4% | 1,159 | -1.2% |
| £10,400 i £15,599 | 10.0% | 269 | 10.5% | 2,734 | -0.5% |
| £15,600 i £20,799 | 4.7% | 127 | 1.9% | 502 | 2.8% |
| £20,800 i £25,999 | 10.6% | 286 | 14.5% | 3,795 | -3.9% |
| £26,000 i £31,199 | 14.4% | 388 | 15.1% | 3,948 | -0.7% |
| £31,200 i £36,399 | 15.7% | 424 | 13.0% | 3,409 | 2.7% |
| £36,400 i £51,999 | 21.0% | 567 | 26.2% | 6,861 | -5.2% |
| £52,000 i £99,999 | 19.6% | 527 | 13.2% | 3,441 | 6.4% |
| Cyfanswm | 100% | 2,694 | 100% | 26,156 | Amh. |

Ffynhonnell: Data monitro Cynnig Gofal Plant Cymru, arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru, 2023–24

# 3. Defnyddio'r Cynnig

## Ymwybyddiaeth

3.1. Daeth rhieni yn ymwybodol o gymhwystra posibl ar gyfer y Cynnig trwy amrywiaeth o ffynonellau. Mae Tabl 7 isod yn crynhoi myfyrdodau ymatebwyr arolwg y rhieni ar sut y daethant yn ymwybodol o'r rhaglen. Mae'r tabl yn dangos mai 'darparwr gofal plant presennol' a 'chlywed gan rywun arall' oedd y ffynonellau pwysicaf o wybodaeth, gyda 46% a 38% o ymatebwyr yn adrodd y ffynonellau hyn yn y drefn honno.

**Tabl 7: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Sut y clywsoch chi gyntaf am Gynnig Gofal Plant Cymru?" 2023–24**

| Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion | Canran yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Darparwr gofal plant presennol | 723 | 45.7% |
| Clywed gan rywun arall | 607 | 38.4% |
| Gwybodaeth a deunydd hyrwyddo'r awdurdodau lleol | 227 | 14.4% |
| Gwefan Llywodraeth Cymru | 220 | 13.9% |
| Ysgol | 177 | 11.2% |
| Arall (manylwch): | 112 | 7.1% |
| Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol y Cynnig Gofal Plant | 96 | 6.1% |
| Cyfryngau cymdeithasol eraill | 67 | 4.2% |
| Canolfannau i'r teulu (e.e., canolfan Dechrau'n Deg) | 58 | 3.7% |
| Cyflogwr | 35 | 2.2% |
| Hysbysebion radio | 16 | 1.0% |
| Cynghorydd Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth | 12 | 0.8% |
| Mumsnet/Netmums | 11 | 0.7% |
| Poster mewn canolfan chwarae | 11 | 0.7% |
| Wales Online | 10 | 0.6% |
| Papur Newydd | 6 | 0.4% |
| Canolfan Waith | 5 | 0.3% |
| Hysbyseb ar S4C (ar-lein neu ar y teledu) | 5 | 0.3% |
| Cymru'n Gweithio | 4 | 0.3% |
| Teulu Cymru (y cyfryngau cymdeithasol / gwefan) | 2 | 0.1% |
| Hysbyseb ar Google | 2 | 0.1% |
| Post hyrwyddo Asda | 1 | 0.1% |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

3.2. Gofynnwyd i ddarparwyr y Cynnig am eu profiadau o weithio gyda rhieni fel rhan o'r rhaglen. Yn benodol, gofynnwyd iddynt am y potensial i rieni beidio â manteisio ar y rhaglen, er eu bod yn gymwys. Cyflwynir crynodeb o'r ymatebion yn nhabl 8 isod.

**Tabl 8: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw rai o'ch cwsmeriaid / rhieni sy'n gymwys i gael y Cynnig ond sydd wedi penderfynu peidio â'i dderbyn? "**

| Ymatebion | 2021–22 | 2022–23 | 2023–24 |
|---|---|---|---|
| Ydym | 24.1% | 30.8% | 27.7% |
| Nac ydym | 75.9% | 69.2% | 72.3% |
| Cyfanswm | 303 | 328 | 224 |

Ffynhonnell: Arolwg darparwyr Cynnig Gofal Plant i Gymru

3.3. Gofynnwyd i ddarparwyr ehangu ar yr atebion hyn â sylwadau ysgrifenedig. Y thema a drafodwyd fwyaf oedd y baich gweinyddol sy'n wynebu rhieni.

> "Roedd y broses gofrestru yn rhy gymhleth i'w sefyllfa."
>
> "Roedden nhw'n gweld y broses yn rhy gymhleth ac yn cymryd llawer o amser."
>
> "Mae rhai rhieni yn y gorffennol wedi dweud bod y broses ymgeisio a chyflwyno tystiolaeth yn rhy ddryslyd neu'n cymryd llawer o amser, a dydyn nhw ddim wedi gwneud cais oherwydd hyn."

3.4. Yr ail thema a drafodwyd fwyaf mewn perthynas â rhieni cymwys na ymgeisiodd am y Cynnig oedd effaith bosibl y Cynnig ar Ofal Plant y Credyd Cynhwysol.

> "Mae'n well gan [rieni] aros ar [y Credyd Cynhwysol]; maen nhw'n teimlo y bydd yn amharu ar eu [Credyd Cynhwysol]"

> “Gan fod [y Cynnig] yn effeithio ar eu budd-daliadau / credyd cynhwysol, bydd yn waeth ar ôl i’r cytundeb ddod i ben ac yn ystod y 4 wythnos o’r flwyddyn nad yw’r cyllid yn eu cwmpasu.”

> “Maen nhw’n dweud wrtha i ei fod yn llawer o waith papur ac y bydd yn amharu ar fudd-daliadau eraill maen nhw’n eu hawlio. Dwi wedi cynnig helpu ac egluro nad yw’n gwneud hynny, ond maen nhw’n penderfynu peidio â derbyn y cynnig.”

3.5. Ymhlith y themâu eraill a amlygwyd oedd yr anawsterau wrth ymgeisio sy’n wynebu rhieni hunangyflogedig, a dewisiadau personol o amgylch opsiynau eraill, gan gynnwys gofal anffurfiol gan neiniau a theidiau a gweithio’n rhan-amser er mwyn treulio mwy o amser gyda’u plant.

## Y broses ymgeisio

3.6. Er mwyn manteisio ar y Cynnig, mae’n ofynnol i rieni lenwi ffurflen gais a darparu tystiolaeth o’u cymhwystra, gan gynnwys prawf o incwm. Yn ystod y cyfnod rhwng Medi 2022 ac Awst 2023, gwelwyd newid yn y broses ymgeisio: cyn y cyfnod hwn, cyflwynwyd ceisiadau i awdurdodau lleol; ond ar ôl y cyfnod hwn, cyflwynwyd ceisiadau yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru drwy wasanaeth digidol cenedlaethol.

3.7. Gofynnwyd i rieni’r arolwg a oeddent wedi profi heriau wrth gwblhau eu cais. Cyflwynir crynodeb o’r ymatebion dros sawl blwyddyn yn nhabl 9 isod.

**Tabl 9: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "A gawsoch unrhyw un o'r anawsterau canlynol wrth wneud cais am y Cynnig Gofal Plant? Ticiwch bob un sy'n berthnasol"**

| Ymatebion | 2021–22 | 2022–23 | 2023–24 |
|---|---|---|---|
| Roedd yn anodd dod o hyd i wybodaeth am ymgeisio am y Cynnig | 50.2% | 37.5% | 30.1% |
| Cefais anawsterau technegol gyda'r broses ymgeisio ar-lein | 26.6% | 33.5% | 21.7% |
| Roedd yn cymryd llawer o amser i gwblhau'r cais | 56.2% | 52.8% | 59.1% |
| Roedd yn anodd darparu'r dogfennau cysylltiedig (e.e., slipiau cyflog, tystysgrif geni y plentyn, ac ati). | 55.7% | 39.0% | 47.1% |
| Roedd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynnig yn aneglur | 32.5% | 21.4% | 18.2% |
| Doeddwn i ddim yn deall y ffurflen gais | 17.2% | 11.5% | 7.5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 203 | 538 | 1,078 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

3.8. Mae'r tabl uchod yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf wedi adrodd bod y cais yn cymryd llawer o amser. Dywedodd cyfran fawr o ymatebwyr ym mhob blwyddyn (rhwng 39.0% a 55.7%) fod y ddogfennaeth gysylltiedig yn anodd ei darparu. Fel yr adroddwyd ymhellach uchod o ymatebion arolwg y darparwyr, tynnodd llawer o ymatebwyr arolwg y rhieni yn 2023–24 sylw at sylwadau bod unigolion hunangyflogedig yn cael trafferth darparu tystiolaeth o gymhwystra.

> "Oherwydd bod y partner yn hunangyflogedig, roedd hi'n anodd cael gwybodaeth angenrheidiol gan Gyfrifwyr."

> "Roedd angen ffurflen dreth hunangyflogedig ar gyfer y flwyddyn fwyaf diweddar, ond daeth honno ond i ben ddeufis cyn ymgeisio pan nad oeddwn i wedi'i llenwi eto, felly bu oedi wrth anfon y cais."

> “I bobl hunangyflogedig sydd ond megis dechrau, mae angen mwy o eglurder ar y cais neu wybodaeth am beth sydd ei angen i gyflwyno tystiolaeth o incwm.”

Tynnodd rhieni eraill sylw at yr her o ddarparu slipiau cyflog dros gyfnod hir o amser.

> “Mae’n anodd cael tri mis o slipiau cyflog pan ydych chi’n cael eich talu’n wythnosol ac mae pob un ar e-bost. Mae’n cymryd hydoedd ac mae’r Llywodraeth yn gwybod eich enillion, beth bynnag.”

> “Roedd darparu gwybodaeth bob tri mis yn boen, yn enwedig gan fod slipiau cyflog yn cael eu hamgryptio ac roedd rhaid dad-wneud hyn er mwyn gallu darparu gwybodaeth.”

3.9. Wrth gymharu data dros y tair blynedd hyn, mae’n bwysig nodi bod y ffordd y gwnaeth rhieni, darparwyr gofal plant ac Awdurdodau Lleol ymwneud â Chynnig Gofal Plant Cymru wedi newid yn sylweddol rhwng Tachwedd 2022 ac Awst 2023. Lansiwyd gwasanaeth digidol newydd Cynnig Gofal Plant Cymru ym mis Tachwedd 2022, gan alluogi rhieni i ymgeisio drwy’r gwasanaeth hwn. Ym mis Ionawr 2023, rhoddwyd hefyd y gallu i ddarparwyr gofal plant gyflwyno’u hawliadau drwy’r un gwasanaeth. Hyd at Awst 2023, roedd y gwasanaeth digidol cenedlaethol a’r hen systemau yn rhedeg ar yr un pryd. Lansiwyd y gwasanaeth digidol cenedlaethol fel isafswm cynnyrch hyfyw (MVP). Mae hyn yn unol ag egwyddorion datblygu meddalwedd Agile. Nid yw’r MVP wedi’i ‘gwblhau’ neu’n berffaith ond mae’n cael ei ryddhau fel cynnyrch a fydd yn cynnig ateb i anghenion cwsmeriaid, ond bydd yn cael ei fireinio a’i ddatblygu yn seiliedig ar ymddygiad ac adborth defnyddwyr. Felly, mae’r gwasanaeth yn esblygu’n gyson i gyflawni anghenion defnyddwyr. Mae’n anochel y bydd rhai defnyddwyr yn cymharu’r gwasanaeth newydd â’r hen systemau, a oedd ar waith.

## Canllawiau a gwybodaeth i rieni

3.10. Er mwyn cefnogi rhieni sy'n ymgeisio am y Cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad drwy adnoddau ar-lein a llinell gymorth ffôn. Mae Tabl 10 isod yn cyflwyno ymatebion arolwg y rhieni i gwestiwn am ddefnyddio dwy ffynhonnell o ganllawiau ar-lein.

**Tabl 10: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Mae canllawiau ar gael ar-lein i rieni sy'n defnyddio Cynnig Gofal Plant Cymru. Pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau hyn yn eich barn chi?"**

| **Ymatebion** | "Cael 30 awr o ofal plant ar gyfer plant 3-4 oed" | "Cymorth i rieni gyda Chynnig Gofal Plant Cymru" |
|---|---|---|
| Nid wyf wedi gweld y canllawiau | 29.6% | 45.1% |
| Rwyf wedi gweld y canllawiau ac maent yn ddefnyddiol iawn | 13.2% | 10.5% |
| Rwyf wedi gweld y canllawiau ac maent yn ddefnyddiol | 35.7% | 26.3% |
| Rwyf wedi gweld y canllawiau ac nid oeddent yn ddefnyddiol nac o ddefnydd | 10.8% | 10.3% |
| Rwyf wedi gweld y canllawiau ac nid oeddent o ddefnydd mawr | 9.4% | 6.8% |
| Rwyf wedi gweld y canllawiau ac nid oeddent o ddefnydd o gwbl | 1.3% | 1.0% |
| Cyfanswm yr Ymatebion | 1,581 | 1,569 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

3.11. Mae Tabl 10 uchod yn dangos bod mwy o rieni a oedd wedi gweld y mathau hyn o ganllawiau, yn ei weld yn ddefnyddiol (48.9% a 36.8%) nag fel arall (10.7% a 7.8%).

3.12. Yn arolwg 2023–24, dywedodd 29.2% o ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r llinell gymorth ffôn. Mae Tabl 11 isod yn cyflwyno profiadau'r rhieni hyn o ddefnyddio'r llinell gymorth.

**Tabl 11: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Pa mor ddefnyddiol oedd y cyngor a gawsoch drwy'r llinell gymorth genedlaethol?"**

| Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion | Canran yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Defnyddiol iawn | 185 | 40.0% |
| Defnyddiol | 179 | 38.7% |
| Ddim yn ddefnyddiol nac yn annefnyddiol | 62 | 13.4% |
| Annefnyddiol | 12 | 2.6% |
| Annefnyddiol iawn | 19 | 4.1% |
| Ddim yn gwybod | 6 | 1.3% |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

3.13. Mae'r tabl uchod yn dangos bod mwyafrif helaeth o rieni a oedd wedi defnyddio'r llinell gymorth (78.7%) o'r farn bod y cyngor a dderbyniwyd yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

## Gweinyddu darparwyr

3.14. Rhaid i ddarparwyr y Cynnig gwblhau proses gofrestru i ddechrau cael gafael ar gyllid i ddarparu gofal plant fel rhan o'r rhaglen. Mae'r broses gofrestru hon yn cynnwys dangos bod y gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, a bod staff perthnasol hefyd yn cofrestru fel defnyddwyr y gwasanaeth digidol cenedlaethol. Mae darparwyr yn gallu cofrestru unwaith ac nid yw'n ofynnol iddynt ddiweddaru tystiolaeth o'u cymhwystra.

3.15. Mae Tabl 12 isod yn crynhoi ymatebion arolwg y darparwyr am yr amser a dreuliwyd ar gofrestru. Noder, yn y flwyddyn 2022–23, roedd yn ofynnol i'r holl

ddarparwyr a oedd yn darparu'r Cynnig gofrestru ar gyfer y gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd. Mae'n debygol, felly, y gwelir dylanwad hyn ar nifer y gwasanaethau a aeth ati i gofrestru a'r amser a dreuliwyd gan y gwasanaethau hynny. Er gwaethaf hyn, mae'r tabl yn dangos bod y tair blynedd diwethaf wedi gweld gostyngiad yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi treulio mwy na 2 awr ar gofrestru.

**Tabl 12: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "Tua faint o amser ydych chi (neu'ch staff) yn ei dreulio bob mis ar y tasgau gweinyddol canlynol sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Gofal Plant?" Cofrestru fel darparwr i ddarparu'r Cynnig**

| Ymatebion | 2021–22 | 2022–23 | 2023–24 |
|---|---|---|---|
| Hyd at 1 awr | 59% | 74% | 66% |
| 1–2 awr | 25% | 20% | 25% |
| 2–5 awr | 12% | 3% | 7% |
| 5+ awr | 5% | 3% | 1% |
| Cyfanswm | 182 | 323 | 166 |

Ffynhonnell: Arolwg darparwyr Cynnig Gofal Plant i Gymru

3.16. Mae Tabl 13 isod yn crynhoi'r ymatebion i gwestiwn tebyg ar yr amser a dreuliwyd ar gyflwyno ceisiadau am daliad. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno hawliadau i Lywodraeth Cymru er mwyn derbyn taliad am yr oriau o ofal plant a ddarparwyd. Mae'r tabl yn dangos bod cyfrannau'r ymatebwyr a dreuliodd bob amser ar gyflwyno hawliadau wedi bod yn fwy sefydlog dros y tair blynedd diwethaf.

**Tabl 13: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "Tua faint o amser ydych chi (neu'ch staff) yn ei dreulio bob mis ar y tasgau gweinyddol canlynol sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Gofal Plant?" Cyflwyno hawliadau am daliad**

| Ymatebion | 2021–22 | 2022–23 | 2023–24 |
|---|---|---|---|
| Hyd at 1 awr | 71% | 71% | 75% |
| 1–2 awr | 18% | 19% | 19% |
| 2–5 awr | 8% | 9% | 5% |
| 5+ awr | 3% | 1% | 1% |
| Cyfanswm | 262 | 326 | 219 |

Ffynhonnell: Arolwg darparwyr Cynnig Gofal Plant i Gymru

3.17. Mae Tabl 14 isod yn crynhoi'r ymatebion i gwestiwn tebyg ar yr amser a dreuliwyd ar brosesu ceisiadau gan rieni. Mae darparwyr yn derbyn ceisiadau gan rieni fel rhan o'u cytundebau parhaus. Mae'r tabl yn dangos bod yr amser cyffredinol a dreuliwyd gan ddarparwyr wedi gostwng dros y tair blynedd, gyda gostyngiad yn y gyfran a dreuliodd dros awr.

**Tabl 14: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "Tua faint o amser ydych chi (neu'ch staff) yn ei dreulio bob mis ar y tasgau gweinyddol canlynol sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Gofal Plant?" Prosesu ceisiadau gan rieni am oriau a ariennir**

| Ymatebion | 2021–22 | 2022–23 | 2023–24 |
|---|---|---|---|
| **Hyd at 1 awr** | 58% | 72% | 73% |
| **1–2 awr** | 26% | 18% | 19% |
| **2–5 awr** | 11% | 6% | 5% |
| **5+ awr** | 5% | 4% | 3% |
| **n** | 185 | 326 | 208 |

Ffynhonnell: Arolwg darparwyr Cynnig Gofal Plant i Gymru

# 4. Effaith y Cynnig ar deuluoedd

## Newidiadau yn y defnydd o ofal plant

4.1. Mae arolygon rhieni ers dechrau'r Cynnig yn 2017–18 wedi gofyn am ddefnydd rhieni o ofal plant ffurfiol cyn manteisio ar y Cynnig. Cyflwynir crynodeb o'r ymatebion yn Nhabl 15 isod.

**Tabl 15. Ymatebion arolwg rhieni i'r cwestiwn: "Cyn ichi ddechrau manteisio ar y Cynnig Gofal Plant, a oeddech chi'n defnyddio unrhyw ofal plant ffurfiol (fel gofal plant mewn meithrinfeydd, grŵp chwarae neu warchodwyr plant)?"**

| | Canran yr ymatebwyr a ddefnyddiodd ofal plant ffurfiol cyn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant |
|---|---|
| 2017–18 | 94% |
| 2018–19 | 89% |
| 2019–20 | 93% |
| 2020–21 | 88% |
| 2021–22 | 87% |
| 2022–23 | 88% |
| 2023–24 | 89% |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.2. Mae Tabl 15 uchod yn dangos bod mwyafrif helaeth y rhieni a holwyd ym mhob blwyddyn o'r Cynnig wedi defnyddio gofal plant ffurfiol cyn manteisio ar y Cynnig.

4.3. Ers 2019–20, gofynnwyd hefyd gwestiwn damcaniaethol i rieni am yr hyn y byddent yn ei wneud tra bod eu plentyn yn dair a phedair oed pe na bai’r Cynnig yn bodoli. Mae’r ymatebion wedi’u crynhoi yn Nhabl 16 isod.

**Tabl 16. Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Pe na bai'r Cynnig Gofal Plant yn bodoli byddai fy mhlentyn wedi"**

| Blwyddyn | Nifer yr ymatebion | Cyfran yr ymatebwyr y byddai eu plentyn yn mynychu'r un nifer o oriau o ofal plant ffurfiol pe na bai'r Cynnig yn bodoli | Cyfran yr ymatebwyr y byddai eu plentyn yn mynychu llai o oriau o ofal plant ffurfiol pe na bai'r Cynnig yn bodoli | Cyfran yr ymatebwyr y byddai eu plentyn yn defnyddio unrhyw oriau o ofal plant ffurfiol pe na bai'r Cynnig yn bodoli |
|---|---:|---:|---:|---:|
| 2019–20 | 1,762 | 50% | 32% | Amh. |
| 2020–21 | 2,108 | 44% | 28% | 11% |
| 2021–22 | 2,002 | 39% | 32% | 11% |
| 2022–23 | 715 | 33% | 38% | 11% |
| 2023–24 | 1,585 | 37% | 31% | 12% |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.4. Mae Tabl 16 uchod yn dangos bod rhwng 28% a 38% o ymatebwyr arolwg y rhieni ym mhob blwyddyn wedi adrodd y byddai eu plentyn yn mynychu llai o oriau o ofal plant ffurfiol pe na bai'r Cynnig yn bodoli.

4.5. Gofynnwyd i rieni am faint o oriau o ofal plant ffurfiol a ddefnyddiwyd cyn manteisio ar y Cynnig. Mae Tabl 17 isod yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ar gyfer y blynyddoedd 2021–22 a 2023–24.

**Tabl 17: Ymatebion arolwg rhieni i'r cwestiwn: "Rhyw chwe mis cyn ichi ddefnyddio'r Cynnig Gofal Plant, tua faint o oriau o ofal plant ffurfiol a oeddech chi'n eu defnyddio mewn wythnos arferol?" 2021–22, 2023–24**

| Ymatebion | 2021–22 | 2023–24 |
|---|---|---|
| **Nifer yr ymatebwyr** | 1,977 | 1,572 |
| **0–5 awr** | 9.4% | 11.8% |
| **6–10 awr** | 10.6% | 9.9% |
| **11–15 awr** | 12.8% | 12.3% |
| **16–20 awr** | 15.2% | 19.1% |
| **21–25 awr** | 7.5% | 13.5% |
| **Mwy na 25 awr** | 44.6% | 33.3% |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.6. Fel y dangosir yn Nhabl 17 uchod, o'r rhieni a ddefnyddiodd ofal plant ffurfiol cyn defnyddio'r Cynnig yn 2021–22 neu 2023–24, roedd y mwyafrif yn defnyddio nifer gymharol uchel o oriau, gyda dros 40% yn y ddwy flynedd yn defnyddio 21 awr neu fwy.

4.7. Yn 2021–22 a 2023–24, gofynnwyd i rieni hefyd am eu defnydd o ofal plant anffurfiol cyn manteisio ar y Cynnig (ni ddefnyddiwyd y data ar y cwestiwn hwn o 2022–23 oherwydd problemau casglu data). Mae Tabl 18 isod yn dangos nifer yr oriau o ofal anffurfiol yr oedd rhieni yn eu defnyddio cyn manteisio ar y Cynnig. Mae'r tabl yn dangos bod tua hanner y rhieni ym mhob un o'r blynyddoedd hyn wedi defnyddio 10 awr neu lai o ofal plant anffurfiol yr wythnos, gyda'r hanner arall wedi defnyddio mwy na 10 awr.

**Tabl 18: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Rhyw chwe mis cyn ichi ddefnyddio'r Cynnig Gofal Plant, tua faint o oriau o ofal plant anffurfiol (teulu, ffrindiau, teulu estynedig – heb eich cynnwys chi eich hun nac aelodau eraill eich cartref) oeddech chi'n eu defnyddio?", 2021–22, 2023–24**

| Ymatebion | 2021–22 | 2023–24 |
|---|---|---|
| 0–5 awr | 28.1% | 36.9% |
| 6–10 awr | 18.9% | 17.3% |
| 11–15 awr | 11.8% | 12.1% |
| 16–20 awr | 10.4% | 16.3% |
| 21–25 awr | 3.8% | 6.9% |
| Mwy na 25 awr | 27.0% | 10.4% |
| Cyfanswm yr ymatebwyr | 1,964 | 1,582 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.8. Er mwyn deall effaith lawn y Cynnig o'i chymharu â'r defnydd blaenorol o ofal plant, mae Tabl 19 isod yn cyflwyno'r cyfanswm cyfunol o'r oriau o ofal plant anffurfiol a ffurfiol a ddefnyddiwyd a adroddwyd gan rieni yn arolwg 2023–24. Mae'r tabl yn dangos bod dros dri chwarter ymatebwyr arolwg y rhieni (76.3%) yn defnyddio mwy na 25 awr o ofal plant yr wythnos ar draws y ddau fath cyn manteisio ar y Cynnig.

**Tabl 19: Oriau cyfunol o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol a ddefnyddiwyd cyn manteisio ar y Cynnig, fel yr adroddwyd gan ymatebwyr arolwg y rhieni, 2023–24**

| Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion | Canran yr Ymatebion |
|---|---:|---:|
| **0–5 awr** | 63 | 4.0% |
| **6–10 awr** | 56 | 3.5% |
| **11–15 awr** | 66 | 4.1% |
| **16–20 awr** | 109 | 6.9% |
| **21–25 awr** | 83 | 5.2% |
| **Mwy na 25 awr** | 1,214 | 76.3% |
| **Cyfanswm** | **1,591** | |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

## Cyflogaeth ac addysg

4.9. Gofynnwyd i rieni a holwyd am effaith y Cynnig ar eu cyflogaeth neu eu haddysg. Mae Tabl 20 ar y dudalen isod yn crynhoi’r ymatebion i gwestiwn am effeithiau ar gyflogaeth. Mae’r tabl yn dangos bod rhieni’n fwy tebygol o adrodd effaith ar yr oriau a weithiwyd (43.7% yn cytuno neu’n cytuno i raddau) o’i gymharu ag effaith ar ddechrau neu ddychwelyd i’r gwaith (20.2%) neu newid eu swydd (16.4%).

**Tabl 20: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:"**

| Ymatebion | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r Cynnig Gofal Plant wedi bod yn gymhelliant i mi gynyddu nifer yr oriau rwy'n eu gweithio | 27.5% | 16.2% | 18.8% | 3.7% | 19.8% | 14.0% | 1,552 |
| Mae'r Cynnig Gofal Plant wedi bod yn gymhelliant i mi newid fy swydd | 10.5% | 5.9% | 23.1% | 1.8% | 32.0% | 26.6% | 1,550 |
| Fe wnaeth y Cynnig Gofal Plant fy ysgogi i ddechrau gweithio neu ddychwelyd i'r gwaith | 13.1% | 7.1% | 16.1% | 1.7% | 25.9% | 36.2% | 1,546 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.10. Gofynnwyd hefyd gwestiwn damcaniaethol i rieni ynglŷn â beth fyddai eu sefyllfa o ran cyflogaeth pe na baent wedi manteisio ar y Cynnig. Mae Tabl 21 isod yn rhoi crynodeb o'r ymatebion hyn o 2023–24. Mae'r tabl yn awgrymu y byddai cyflogaeth tua hanner yr ymatebwyr yr un fath heb y Cynnig. Dywedodd ychydig dros draean o'r ymatebwyr y byddent yn gweithio llai o oriau heb y Cynnig (34.1%), gyda 13.3% yn dweud na fyddent mewn gwaith.

**Tabl 21: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "Pe na bai'r Cynnig Gofal Plant wedi bod ar gael i chi, beth fyddech chi'n meddwl fyddai eich sefyllfa o ran cyflogaeth? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)"**

| Ymatebion | Canran yr Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Byddai fy sefyllfa o ran cyflogaeth yr un fath neu'n debyg iawn | 50.0% | 769 |
| Byddwn i'n gweithio mwy o oriau | 3.7% | 57 |
| Byddwn i'n gweithio llai o oriau | 34.1% | 524 |
| Byddwn i'n gweithio mewn swydd gyda chyflog is | 7.0% | 108 |
| Byddwn i'n gweithio mewn swydd gyda chyflog uwch | 0.5% | 8 |
| Byddwn ar lwybr gyrfa gyda llai o gyfleoedd i symud ymlaen | 8.8% | 135 |
| Byddwn ar lwybr gyrfa gyda mwy o gyfleoedd i symud ymlaen | 0.5% | 7 |
| Fyddwn i ddim mewn gwaith | 13.3% | 205 |
| Arall (manylwch): | 2.6% | 40 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.11. Mae Tabl 22 isod yn rhoi crynodeb o ymatebion rhieni i gwestiynau ar effeithiau eraill y Cynnig mewn perthynas â'u cyflogaeth. Mae'r data hyn yn awgrymu bod y Cynnig wedi cael mwy o effaith ar allu rhieni i weithio'n hyblyg (49.5% yn dweud 'ie') nag i ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad neu gynyddu eu henillion.

**Tabl 22: Ymatebion arolwg y rhieni i gwestiynau ar effaith y Cynnig ar eu cyflogaeth**

| Ymatebion | Ie | Na | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| A yw cael mynediad i'r Cynnig Gofal Plant wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i chi o ran y ffordd rydych chi'n gweithio? | 49.5% | 44.2% | 6.3% | 1,551 |
| A yw mynediad i'r Cynnig Gofal Plant wedi gwella eich cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mewn gwaith a chyfleoedd dysgu a datblygu eraill? | 33.5% | 53.8% | 12.8% | 1,544 |
| A yw cael mynediad i'r Cynnig Gofal Plant wedi rhoi'r potensial i chi gynyddu eich enillion? | 42.4% | 50.3% | 7.3% | 1,554 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.12. Mewn sylwadau ysgrifenedig, nododd llawer o ymatebwyr fod argaeledd gofal plant a ariennir yn caniatáu iddynt weithio yn ystod oriau traddodiadol yn hytrach nag yn hwyr gyda'r nos neu ar benwythnosau. Er enghraifft, roedd rhai yn gallu cynyddu eu horiau o ran-amser i lawnamser, neu o dridiau'r wythnos i bedwar diwrnod yr wythnos, diolch i'r gefnogaeth.

> "Gallaf weithio'n gynharach a pheidio â gorfod gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau. Pan fydd fy mhartner gartref, gallwn weithio yr un amser a chael mwy o amser fel teulu."

> "Dwi wedi cofrestru am oriau ychwanegol yn ystod cyfnodau o brinder staff. Gallaf aildrefnu fy oriau gwaith yn ystod amseroedd gofal plant os oes angen."

4.13. Fodd bynnag, nododd eraill fod eu gallu i newid eu gwaith wedi'i gyfyngu gan ymrwymiadau teuluol eraill, yn enwedig cael plant eraill nad oeddent yn gymwys i gael gofal plant a ariennir:

> "Dwi'n dal i weithio'n rhan-amser yn unig gan fod gen i ddau blentyn hŷn sydd angen eu casglu o'r ysgol a dydw i ddim yn gallu fforddio gofal plant iddyn nhw i gyd."

4.14. Yn nodedig, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith bod diffyg hyblygrwydd yn eu cyflogaeth nid yn unig yn cyfyngu ar effaith y Cynnig ar eu gallu i weithio, ond bod strwythur y ffordd y cyflwynwyd y rhaglen gan eu darparwr yn creu problemau yn eu gwaith.

> "Mae'n anodd iawn trefnu bod y plant yn cael eu casglu o gwmpas y 12.5 (2.5x5) awr yr wythnos oherwydd prinder opsiynau o ran gofal cofleidiol. Mae gen i swydd brysur iawn ac mae wedi achosi llawer o straen wrth geisio ei symud hi o un lleoliad i'r llall yng nghanol y dydd – dydw i ddim yn cael unrhyw seibiannau gwarchodedig (meddyg)."

> "Gan nad yw lleoliadau gofal plant weithiau yn gallu cynnig diwrnodau hyblyg, dim ond diwrnodau penodol, dwi'n gweithio shifftiau sy'n newid o wythnos i wythnos, felly ches i ddim llawer o hyblygrwydd trwy hyn."

4.15. Gofynnwyd cwestiynau tebyg i rieni a oedd yn gymwys am y Cynnig trwy fod mewn addysg, ond gan gyfeirio at eu profiad o astudio. Mae Tabl 23 isod yn crynhoi'r ymatebion ar effaith y Cynnig.

**Tabl 23: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:" [Wedi'i dargedu at rieni mewn addysg]**

| Ymatebion | Cytuno | Cytuno i raddau | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae gallu manteisio ar y Cynnig yn ystod fy astudiaethau wedi fy ngalluogi i gynyddu nifer yr oriau rwy'n eu treulio yn astudio ar gyfer fy nghwrs. | 66.7% | 20.0% | 3.3% | 0.0% | 3.3% | 6.7% | 30 |
| Mae gallu cael mynediad i'r Cynnig wedi bod yn gymhelliad i mi ddilyn cyfleoedd addysgol newydd sy'n gysylltiedig ag addysg. | 63.3% | 16.7% | 10.0% | 0.0% | 10.0% | 0.0% | 30 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.16. Mae Tabl 23 uchod yn dangos bod mwyafrif helaeth (87.6%) o'r ymatebwyr hyn yn teimlo bod cael mynediad at y Cynnig yn eu galluogi i gynyddu nifer yr oriau a dreulir ar eu hastudiaethau. Dywedodd mwyafrif ychydig yn llai hefyd – er ei fod yn dal i fod yn fawr – fod y Cynnig yn eu hannog i archwilio cyfleoedd addysgol newydd (80%).

4.17. Mae Tabl 24 isod yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn damcaniaethol am amgylchiadau pe na bai'r Cynnig wedi bod ar gael i rieni mewn addysg. Mae'r tabl yn dangos bod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (79.3%) wedi dweud na fyddent yn gallu treulio cymaint o oriau yn astudio.

**Tabl 24: Ymatebion arolwg rhieni i'r cwestiwn: "Pe na bai'r Cynnig Gofal Plant wedi bod ar gael i chi, beth ydych chi'n meddwl fyddai eich sefyllfa bresennol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)"**

| Ymatebion | Canran yr Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---:|---:|
| Ni fyddwn wedi gallu treulio cymaint o oriau yn astudio ar gyfer fy nghwrs | 79.3% | 23 |
| Ni fyddwn wedi ystyried dilyn cwrs israddedig, ôl-raddedig neu addysg bellach | 31.0% | 9 |
| Ni fyddwn wedi gallu datblygu fy sgiliau a fy ngwybodaeth er mwyn dilyn cyfleoedd newydd sy'n gysylltiedig â gyrfa | 41.4% | 12 |
| Cyfanswm | 100% | 29 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

## Arbed costau, gallu i weithio, a lles teuluol

4.18. Gofynnwyd i rieni dros sawl blwyddyn am yr effeithiau y credent y mae'r Cynnig wedi'i gael ar eu bywydau a bywydau eu teuluoedd.

4.19. Mae Tabl 25 isod yn crynhoi'r ymatebion i gwestiwn am effaith y Cynnig ar les rhieni. Mae'r tabl yn dangos bod dros ddwy ran o dair ym mhob blwyddyn wedi cytuno bod y Cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles eu hunain neu ar les eu partner. Mae cyfran isel iawn o ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn.

**Tabl 25: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:" Mae cael mynediad at ofal plant wedi'i ariannu wedi cael effaith gadarnhaol ar fy lles fy hun a/neu fy mhartner.**

| Ymatebion | 2021–22 | 2022–23 | 2023–24 |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 66.2% | 69.4% | 69.5% |
| Cytuno i raddau | 19.6% | 18.9% | 19.5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 10.0% | 7.7% | 6.9% |
| Anghytuno i raddau | 0.8% | 1.0% | 1.3% |
| Anghytuno | 1.9% | 2.0% | 1.8% |
| Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol | 1.4% | 1.0% | 1.1% |
| Cyfanswm | 1,808 | 736 | 1,583 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.20. Mae Tabl 26 isod yn cyflwyno crynodeb tebyg ar gyfer datganiad sy'n ymwneud ag effeithiau ar faich ariannol gofal plant. Mae'r ymatebion yn dangos lefel uwch o gytundeb ar yr effaith hon nag ar gyfer lles.

**Tabl 26: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:" Mae manteisio ar y Cynnig Gofal Plant wedi lleihau baich ariannol gofal plant.**

| Ymatebion | 2021–22 | 2022–23 | 2023–24 |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 81.0% | 79.6% | 78.9% |
| Cytuno i raddau | 13.5% | 16.0% | 15.7% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2.2% | 1.8% | 2.1% |
| Anghytuno i raddau | 0.8% | 1.1% | 1.4% |
| Anghytuno | 1.9% | 1.5% | 1.5% |
| Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol | 0.5% | 0.0% | 0.4% |
| Cyfanswm | 1,810 | 736 | 1,582 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.21. Gofynnwyd i rieni yn fanylach am effeithiau ariannol y Cynnig. Mae Tabl 27 yn crynhoi'r ymatebion i gwestiwn am gyllid teuluol. Mae'r ymatebion yn awgrymu bod y Cynnig yn caniatáu i deuluoedd wario mwy ar bethau heblaw gofal plant, gyda dros 80% yn nodi naill ai rhywfaint neu lawer mwy o arian ar gael.

**Tabl 27: Ymatebion arolwg rhieni i'r cwestiwn: "Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae gofal plant wedi'i ariannu drwy'r Cynnig wedi'i wneud i gyllid eich teulu o ran faint o arian sydd ar gael i chi bob mis?"**

| Ymatebion | Canran yr Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Erbyn hyn mae gennyf/gennym lawer mwy o arian i'w wario ar bethau heblaw am ofal plant bob mis o ganlyniad i gael mynediad i'r Cynnig Gofal Plant | 28.7% | 450 |
| Erbyn hyn mae gennyf/gennym ychydig mwy o arian i'w wario ar bethau heblaw am ofal plant bob mis o ganlyniad i gael mynediad i'r Cynnig Gofal Plant | 53.0% | 832 |
| Mae gennyf/gennym tua'r un faint o arian ar gael ag o'r blaen gan nad oeddwn i'n talu am ofal plant o'r blaen | 8.8% | 138 |
| Mae gennym ni tua'r un faint o arian ar gael ag o'r blaen gan fy mod i'n talu tua'r un faint am ofal plant nawr ag o'r blaen | 5.9% | 92 |
| Ddim yn gwybod | 3.6% | 57 |
| Cyfanswm | 100% | 1,569 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.22. Pwysleisiwyd ffactor lliniarol ar gyfer y budd ariannol o gael mynediad at y Cynnig yn y sylwadau gan rieni, gyda llawer o ymatebwyr yn cael plant yn gymharol agos o ran oedran. Roedd hyn yn golygu, er bod yr oriau a ariennir yn lleihau'r gost i blentyn tair neu bedair oed, mae'r rhieni hynny'n debygol o fod yn talu gofal plant i frawd neu chwaer hefyd.

> "Dim ond trwy gael gafael ar gyllid roedden ni'n gallu cael plant yn agos o ran oedran wrth i'n plentyn iau ddechrau'r meithrin ar yr un pryd ag y

daeth ein plentyn hŷn yn gymwys am 30 awr, felly does dim llawer o newidiadau wedi bod yn ein cyllid."

"Doedden ni ddim yn talu am ofal plant gan fy mod i'n hunangyflogedig ac yn gweithio o gwmpas y plant. Er bod gallu cael mynediad at ofal plant i'm plentyn hynaf wedi bod yn wych, doedd ddim yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'm gallu i weithio gan fod gennym blentyn 1 oed gartref o hyd na allwn fforddio talu gofal plant amdano."

4.23. Mae Tabl 28 isod yn rhoi crynodeb tebyg ar gyfer datganiad sy'n ymwneud â rhwyddineb ymgymryd â gwaith.

**Tabl 28: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:" Mae manteisio ar y Cynnig Gofal Plant wedi'i gwneud yn haws i mi ymgymryd â fy ngwaith nag a fyddai wedi bod fel arall.**

| Ymatebion | 2021–22 | 2022–23 | 2023–24 |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 59.5% | 68.8% | 69.5% |
| Cytuno i raddau | 15.0% | 14.7% | 14.7% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 12.6% | 9.1% | 7.2% |
| Anghytuno i raddau | 1.1% | 1.8% | 1.9% |
| Anghytuno | 7.3% | 5.0% | 5.4% |
| Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol | 4.4% | 0.7% | 1.3% |
| Cyfanswm | 1,809 | 736 | 1,582 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.24. Mae tablau 25 i 28 uchod yn awgrymu mai effaith gryfaf y Cynnig yw lleihau baich ariannol gofal plant, er bod mwyafrif helaeth o rieni a arolygwyd hefyd wedi adrodd effeithiau cadarnhaol ar eu gallu i weithio ac ar les.

4.25. Gellir asesu effaith y Cynnig ar allu rhieni i weithio hefyd drwy ymatebion i gwestiynau'r arolwg am eu patrymau gwaith. Gofynnwyd i rieni am yr oriau yr oeddent yn gweithio cyn ac ar ôl manteisio ar y rhaglen.

4.26. Gofynnwyd i rieni am eu barn ar effeithiau'r Cynnig ar eu plentyn. Mae Tabl 29 isod yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion o 2023–24.

**Tabl 29: Ymatebion arolwg y rhieni i'r cwestiwn: "A ydych chi'n credu bod unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol wedi bod o ganlyniad i'ch plentyn yn manteisio ar ofal plant ffurfiol?"**

| Ymatebion | Cadarnhaol | Dim newid | Negyddol | Ddim yn siŵr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu iaith (ac agweddau eraill ar ddatblygiad gwybyddol) | 88.9% | 9.0% | 0.3% | 1.8% | 1,581 |
| Chwarae gyda phlant eraill (ac agweddau eraill ar ddatblygiad cymdeithasol) | 93.4% | 5.6% | 0.2% | 0.8% | 1,583 |
| Rheoli eu teimladau (ac agweddau eraill ar ddatblygiad ymddygiad) | 82.5% | 13.4% | 1.4% | 2.7% | 1,580 |
| Cynnydd tuag at allu defnyddio'r toiled | 65.4% | 30.2% | 2.1% | 2.3% | 1,582 |
| Iechyd a ffitrwydd | 76.5% | 20.5% | 0.5% | 2.5% | 1,582 |

Ffynhonnell: Arolwg rhieni Cynnig Gofal Plant Cymru

4.27. Mae Tabl 29 uchod yn dangos bod mwyafrif y rhieni wedi adrodd effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â phob un o'r cydrannau. Mae'r ymateb mwyaf wedi bod mewn perthynas ag effaith gadarnhaol y rhaglen ar blant yn chwarae gyda phlant eraill ac agweddau eraill ar ddatblygiad cymdeithasol.

4.28. Roedd yr ymateb lleiaf mewn perthynas â'r cynnydd tuag at allu defnyddio'r toiled, gyda 65.4% yn nodi effaith gadarnhaol y Cynnig. Ceir canfyddiad eang bod cyfran y plant sy'n cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r toiled erbyn iddynt ddechrau'r ysgol gynradd wedi gostwng (BBC Cymru Fwy, 07/01/2025 (Saesneg yn unig)). Mae ymgysylltu ag arbenigwyr academaidd yng Nghymru wedi nodi y gallai oedi mewn hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled fod yn gysylltiedig ag effeithiau aflonyddgar pandemig COVID-19 (Bajjada, Richardson, Tully a KilBride, 2024)

# 5. Effeithiau ar ddarparwyr

## Proffil y darparwyr

5.1. Yn 2023–24, ariannwyd 2,068 o ddarparwyr gofal plant i ddarparu Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae Tabl 30 isod yn dangos lleoliad y gwasanaethau hyn yn y 22 awdurdod lleol.

**Tabl 30: Darparwyr sy'n darparu'r Cynnig yn ôl awdurdod lleol, 2023–24**

| Awdurdod Ymgysylltu | Darparwyr | Cyfran y darparwyr |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 47 | 2% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 57 | 3% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 134 | 7% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 146 | 7% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 66 | 3% |
| Dinas a Sir Abertawe | 93 | 5% |
| Cyngor Dinas Caerdydd | 217 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 102 | 5% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 89 | 4% |
| Cyngor Sir y Fflint | 142 | 7% |
| Cyngor Gwynedd | 121 | 6% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 47 | 2% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 18 | 1% |
| Cyngor Sir Fynwy | 80 | 4% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 83 | 4% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 72 | 4% |
| Cyngor Sir Penfro | 72 | 4% |
| Cyngor Sir Powys | 118 | 6% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 119 | 6% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 33 | 2% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 107 | 5% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 105 | 5% |
| Cyfanswm | 2,068 | |

Ffynhonnell: Data monitro Cynnig Gofal Plant Cymru

5.2. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn casglu data o'r holl wasanaethau gofal plant a chwarae cofrestredig fel rhan o gasgliad data blynyddol. Yn 2024, mae data hunanadroddedig yn dangos bod 86% o'r holl wasanaethau gofal plant a

chwarae wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu'r Cynnig, gyda 70% yn gweithredu'r rhaglen ar y pryd. Mae SASS yn dangos bod cyfran y gwasanaethau cofrestredig sy'n darparu'r rhaglen wedi cynyddu, ar adeg pan fo maint cyffredinol y sector wedi lleihau. Mae'r cyfrannau hyn wedi cynyddu ers i'r data hyn gael eu casglu gyntaf yn 2021, pan gofrestrwyd 81% o'r gwasanaethau i ddarparu'r Cynnig, gyda 64% wedi mynd ati i ddarparu. Mae hyn yn awgrymu bod darparu'r Cynnig yn hygyrch yn eang i fwyafrif helaeth y gwasanaethau cofrestredig.

## Incwm a chynaliadwyedd

5.3. Mae Tabl 31 isod yn cyflwyno ymatebion i gwestiwn ar amseroldeb a chywirdeb taliadau ar gyfer darparu'r Cynnig, a gymerwyd o arolygon darparwyr rhwng 2021–22 a 2023–24.

**Tabl 31: Ymatebion arolwg y darparwyr i'r cwestiwn: "A yw'r taliadau a gewch am ddarparu'r lleoedd o dan y Cynnig Gofal Plant yn cael eu talu i chi mewn modd amserol a chywir?"**

| Blwyddyn | Cyfanswm | Ydyn, bob amser | Ydyn, fel arfer | Nac ydyn |
|---|---|---|---|---|
| 2021–22 | 294 | 61% | 27% | 13% |
| 2022–23 | 327 | 66% | 27% | 8% |
| 2023–24 | 220 | 67% | 28% | 4% |

Ffynhonnell: Arolwg darparwyr Cynnig Gofal Plant i Gymru

5.4. Mae Tabl 31 uchod yn dangos bod ymatebwyr i arolwg y darparwyr wedi teimlo bod taliadau wedi gwella ers 2021–22, gyda'r gyfran sy'n anghytuno â'r datganiad wedi gostwng o 13% i 4%. Mae rhai sylwadau a roddwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod y gwelliant hwn yn gysylltiedig â chyflwyno'r gwasanaeth digidol cenedlaethol.

> "Llawer gwell fel hyn na phythefnos mewn ôl-ddyledion ar yr hen system."

> "Gyda'r cynnig digidol newydd, mae'r taliadau yn llawer cynt ac yn cael eu talu'n wythnosol ac, fel lleoliad, mae'n well i ni."

5.5. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr fod talu mewn ôl-ddyledion ar y Cynnig yn achosi rhai heriau ac yn wahanol i'w dull yn eu busnes preifat.

> "Dydw i ddim yn gweld pam mae angen i mi aros sawl diwrnod ar ôl cyflwyno oriau ar ddydd Gwener i gael fy nhalu y dydd Iau canlynol. Dwi bob amser wedi bod yn ffioedd ymlaen llaw, ac mae'r cynnig yn effeithio ar filiau'r cartref a fy nghyllid fy hun."

“Mae yna oedi adeg gwyliau banc, ac mae hyn yn effeithio’n negyddol arnon ni.”

“Ar ôl cael y taliad hwn ar ddechrau’r mis o’r blaen, mae’n dod yn fwyfwy anodd derbyn y taliadau hyn ar ddiwedd y mis, yn enwedig wrth fynd ymlaen i’r cynnig oherwydd costau rhedeg y lleoliad gofal plant.”

5.6. Gofynnwyd i ymatebwyr arolwg y darparwyr dros sawl blwyddyn am effaith y Cynnig ar broffidioldeb a chynaliadwyedd eu busnes. Mae tablau 32 a 33 isod yn cyflwyno crynodeb o’r ymatebion.

**Tabl 32: Ymatebion arolwg darparwyr i’r cwestiwn: “A yw’r Cynnig Gofal Plant wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar broffidioldeb eich busnes?”**

| Blwyddyn | Effaith gadarnhaol gref | Rhywfaint o effaith gadarnhaol | Dim effaith | Rhywfaint o effaith negyddol | Effaith negyddol gref |
|---:|---:|---:|---:|---:|---:|
| 2022 | 31.7% | 39.9% | 19.1% | 7.2% | 2.0% |
| 2023 | 26.5% | 29.3% | 21.5% | 16.2% | 6.5% |
| 2024 | 22.7% | 29.1% | 18.2% | 20.0% | 10.0% |

Ffynhonnell: Arolwg darparwyr Cynnig Gofal Plant i Gymru

**Tabl 33: Ymatebion arolwg y darparwyr i’r cwestiwn: “A yw’r Cynnig Gofal Plant wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gynaliadwyedd eich busnes?”**

| Blwyddyn | Effaith gadarnhaol gref | Rhywfaint o effaith gadarnhaol | Dim effaith | Rhywfaint o effaith negyddol | Effaith negyddol gref |
|---|---|---|---|---|---|
| 2022 | 34.1% | 39.0% | 19.7% | 5.9% | 1.4% |
| 2023 | 29.9% | 31.8% | 21.7% | 10.8% | 5.7% |
| 2024 | 25.7% | 34.1% | 19.2% | 13.6% | 7.5% |

Ffynhonnell: Arolwg darparwyr Cynnig Gofal Plant i Gymru

5.7. Mae tablau 32 a 33 uchod yn dangos gostyngiad yng nghyfran yr ymatebwyr o arolwg y darparwyr sy'n adrodd bod y Cynnig wedi cael effaith gadarnhaol ar eu proffidioldeb a'u cynaliadwyedd rhwng 2022 a 2024. Mae gwaith dadansoddol ar wahân gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod y newidiadau hyn yn debygol o ddeillio o chwyddiant prisiau uchel yn economi Cymru dros gyfnod lle na newidiodd y gyfradd ariannu ar gyfer y Cynnig. Wedi hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu a chynyddu ei chyfradd ariannu ar gyfer y Cynnig o fis Ebrill 2025 a bydd yn parhau i adolygu hyn yn flynyddol.

## 6. Costau ychwanegol

6.1. Mae arolygon blynyddol o rieni a gwasanaethau gofal plant wedi dangos bod llawer o rieni sy'n defnyddio'r Cynnig yn gorfod wynebu costau ychwanegol gan wasanaethau gofal plant mewn perthynas â'u horiau a ariennir. Gall costau ychwanegol gwmpasu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys bwyd a byrbrydau, cewynnau a chludiant. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd i ddarparwyr y Cynnig yn caniatáu codi costau ychwanegol am gludiant, am deithiau y tu allan i'r lleoliad, ac am hyd at £9 y dydd ar gyfer prydau bwyd a byrbrydau; fodd bynnag, ni chaniateir i ddarparwyr godi ffioedd atodol ar gyfer gofal plant.

6.2. Mae arolygon blynyddol o rieni a darparwyr fel rhan o fonitro arferol o'r Cynnig wedi dangos bod yr arfer o godi costau ychwanegol wedi cynyddu dros amser. Yn 2018–19, nododd 15% o'r darparwyr a arolygwyd eu bod yn codi costau ychwanegol, gan gynnwys ffioedd atodol (Glover, Harries, Lane a Lewis, 2018), gan gynyddu i 20% y flwyddyn ganlynol (Glyn, Harries, Lane and Lewis, 2019). Erbyn 2023–24, roedd mwyafrif y darparwyr a arolygwyd yn codi costau ychwanegol, gyda 17% yn dweud eu bod yn codi ffi atodol.

**Tabl 34. Ymatebion darparwyr i'r cwestiwn: "A ydych chi'n cynnwys costau ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)", 2021–22 – 2023–24**

| Ymatebion | 2021–22 | 2022–23 | 2023–24 |
|---|---|---|---|
| Prydau / byrbrydau | 28% | 38% | 38% |
| Cludiant | 20% | 21% | 22% |
| Nwyddau traul eraill – e.e., offer, gwersi cerddoriaeth, teithiau ac ati | 8% | 7% | 7% |
| Costau cofrestru a gweinyddu | 7% | 8% | 6% |
| Ffioedd atodol | 9% | 15% | 17% |
| Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys | 57% | 48% | 42% |
| Arall (manylwch): | 8% | 14% | 13% |
| Cyfanswm | 277 | 303 | 218 |

Ffynhonnell: Arolwg darparwyr Cynnig Gofal Plant i Gymru

6.3. Mae Tabl 34 uchod yn dangos bod cyfran yr ymatebwyr sy'n codi pob ffi wedi cynyddu dros y cyfnod ar gyfer yr holl gostau ar wahân i Gostau Cofrestru a Gweinyddu. Yn nodedig, mae nifer y darparwyr sy'n adrodd eu bod yn codi 'ffioedd atodol' bron wedi dyblu, o 9% i 17%. Dylid nodi nad yw canllawiau swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr y Cynnig yn caniatáu i ddarparwyr godi ffioedd atodol.

6.4. O'i chymharu â chyfran y darparwyr sy'n codi ffioedd ychwanegol, mae cyfran y rhieni a oedd yn talu ffioedd o'r fath yn uwch. Gall hyn awgrymu bod darparwyr sy'n gofalu am fwy o blant yn fwy tebygol o godi ffioedd ychwanegol. Mae Tabl 13 isod yn dangos nad oedd llai na hanner ymatebwyr arolwg y rhieni wedi talu unrhyw fath o ffi ychwanegol ym mhob un o'r blynyddoedd hyn. Yn 2023–4, roedd 28% o rieni yn credu eu bod yn talu ffi atodol, bron ddwywaith mor uchel â chyfran y darparwyr a adroddodd eu bod yn codi'r ffioedd hyn.

**Tabl 35: Ymatebion arolwg rhieni i'r cwestiwn: "A wnaethoch chi dalu am unrhyw rai o'r costau ychwanegol canlynol gydag unrhyw un o'r darparwyr gofal plant a fynychodd eich plentyn gan ddefnyddio cyllid y Cynnig Gofal Plant? Dylech gynnwys costau rheolaidd am ginio, byrbrydau neu drafnidiaeth, ond peidiwch â chynnwys unrhyw ffioedd am unrhyw oriau ychwanegol a ddefnyddiwch." 2021–22 i 2023–24**

| **Ymatebion** | **2021–22** | **2022–23** | **2023–24** |
|---|---|---|---|
| Prydau / Byrbrydau | 37% | 50% | 51% |
| Cludiant | 14% | 15% | 17% |
| Costau cofrestru a gweinyddu | 4% | 8% | 7% |
| Ffioedd atodol | 24% | 24% | 28% |
| Na, wnes i ddim talu am unrhyw gostau ychwanegol | 39% | 24% | 31% |
| Arall (manylwch): | 5% | 5% | 4% |
| Ymateb | 1,923 | 752 | 1,565 |

Ffynhonnell: Arolwg darparwyr Cynnig Gofal Plant i Gymru

6.5. Roedd gwarchodwyr plant yn llai tebygol o ddefnyddio ffioedd ychwanegol na darparwyr gofal dydd plant sydd wedi'u lleoli mewn canolfannau, gyda mwyafrif y gwarchodwyr plant (61.5%) heb ffioedd ychwanegol. Roedd gwasanaethau sy'n gofalu am 25 neu fwy o blant (y nifer ganolrifol o blant a ofalwyd amdanynt yn sampl yr arolwg) yn fwy tebygol o ddefnyddio ffioedd ychwanegol, ac roedd y tebygolrwydd yn cynyddu ymhellach ar gyfer gwasanaethau sy'n gofalu am fwy na 40 o blant.

**Tabl 36. Ymatebion darparwyr i'r cwestiwn: "A ydych chi'n cynnwys costau ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)", 2023–24, yn ôl nodweddion gwasanaeth**

| Ymatebion | Gwarchodwr plant | Gofal Dydd Plant | Mwy na 25 o blant yn derbyn gofal | Mwy na 40 o blant yn derbyn gofal |
|---|---|---|---|---|
| Prydau / byrbrydau | 23% | 50% | 52% | 56% |
| Cludiant | 14% | 28% | 33% | 38% |
| Nwyddau traul eraill – e.e., offer, gwersi cerddoriaeth, teithiau ac ati | 9% | 6% | 8% | 9% |
| Costau cofrestru a gweinyddu | 1% | 9% | 10% | 13% |
| Ffioedd atodol | 17% | 18% | 20% | 20% |
| Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys | 62% | 33% | 30% | 28% |
| Arall (manylwch): | 15% | 12% | 11% | 10% |
| Cyfanswm | 78 | 131 | 107 | 71 |

Ffynhonnell: Arolwg darparwyr Cynnig Gofal Plant i Gymru

6.6. Mae rhai sylwadau ysgrifenedig gan ddarparwyr mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod ffioedd ychwanegol wedi'u defnyddio i wneud y gwaith o ddarparu'r Cynnig yn fwy cynaliadwy yn ariannol.

> "Byddwn yn codi tâl o fis Medi gan nad yw'r cyllid yn talu ffioedd llawn."

> “Rydyn ni wedi dechrau codi tâl am brydau ers mis Ebrill 2024 i geisio ei wneud yn fwy cynaliadwy.”

> “Dydw i ddim wedi bod [yn defnyddio ffioedd ychwanegol] ond dwi eisiau gan fy mod i’n colli £1.50 yr awr fesul plentyn gan mai dim ond £5 yr awr yw’r cyllid. Mae’n annheg.”

> “Dechreuais godi tâl am brydau bwyd a byrbrydau ym mis Gorffennaf / Awst i gefnogi hyfywedd ariannol.”

6.7. Awgrymodd sylwadau eraill fod ffioedd ychwanegol yn cael eu defnyddio i dalu oriau nad oeddent yn cael eu defnyddio tra bod plentyn yn mynychu addysg gynnar.

> “Ffi archebu lle tra bod y plentyn yn yr ysgol.”

> “Maen nhw’n cael eu codi am y 2.5 awr nad ydyn nhw’n mynychu, oherwydd nad ydyn nhw’n gallu llenwi’r gofod hwnnw.”

6.8. Mae tystiolaeth anecdotaidd, gan gynnwys trafodaethau ar-lein ymhlith rhieni (Mumsnet (Saesneg yn unig), adrodd yn y cyfryngau (BBC, 04/11/2021, Saesneg yn unig), arolygon o rieni gan y grŵp ymgyrchu Pregnant Then Screwed a’r adborth a roddir gan wasanaethau i Lywodraeth Cymru, yn awgrymu, mewn rhai achosion, fod costau ychwanegol sydd wedi’u labelu fel ffioedd ar gyfer bwyd, cludiant neu weinyddu yn cael eu defnyddio, mewn gwirionedd, i ariannu’r gwaith o ddarparu gofal plant craidd ar raglenni a ariennir, ar y sail nad yw cyfraddau cyllido yn ddigonol i dalu am hyn. Mae’r arfer hwn yn mynd yn groes i’r canllawiau i ddarparwyr y Cynnig; fodd bynnag, gallai nodi, ar adeg y gwaith maes (Gorffennaf ac Awst 2024), nad oedd y gyfradd a dalwyd i ddarparwyr y Cynnig yn ddigonol.

6.9. At ei gilydd, mae ffioedd ychwanegol yn creu sawl her. Mae’n lleihau tryloywder mewn prisio, gan achosi pryder i rieni ynghylch taliadau anesboniadwy neu annisgwyl, ond hefyd yn lleihau gallu rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus

am ofal plant. Yng nghyd-destun y Cynnig a rhaglenni eraill a ariennir, mae'n debygol y bydd ffioedd ychwanegol i rieni yn lleihau hygyrchedd oriau a ariennir ac felly'n lleihau effeithiau posibl y rhaglen ar rieni a phlant.